**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 1500 (Cy.145)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *16 Mehefin 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *18 Mehefin 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *15 Gorffennaf 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 94(5A), 95(3A) ac 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac a freinir bellach ynddynt hwy(**2**), ac ar ôl ymgynghori â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn unol ag Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007(**3**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

### Enwi, Cychwyn a Chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2009, ac maent yn dod i rym ar 15 Gorffennaf 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio'r Rheoliadau

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005(**4**) fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau, ym mhob man y mae'n digwydd—

yn lle "awdurdod lleol" gosoder "awdurdod addysg lleol".

(**1**) 1998 p.31. Mewnosodwyd is-adran 5A yn adran 94 gan adran 50 o Ddeddf Addysg 2002 (p.32). Mewnosodwyd is-adran 3A yn adran 95 gan baragraff 9 o Atodlen 4 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac wedyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) 2007 p.15. Mae paragraff 24(1) o Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 yn cyfarwyddo mai ar ôl ymgynghori â'r Cyngor, yn unig, y ceir arfer pŵer Gweinidogion Cymru i wneud, cymeradwyo, cadarnhau neu gydsynio i reolau gweithdrefnol ar gyfer unrhyw dribiwnlys a restrir.

(**4**) O.S. 2005/1398 (Cy.112).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

16 Mehefin 2009

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 O.S. 2005/1398 (Cy.112) ("Rheoliadau 2005") ac yn dod i rym ar 15 Gorffennaf 2009. Mae'r diwygiad yn rheoliad 2 yn gwneud newid technegol bychan yn Rheoliadau 2005, ac yn gosod y geiriau "awdurdod addysg lleol" yn lle'r geiriau "awdurdod lleol" yn Atodlen 2.